



COMISIWN FFINIAU I GYMRU

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

WEDI EI BARATOI O DAN

DDEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

DATGANIAD

Paratowyd y cynllun hwn yn unol ag adran 21(3) o Ddeddf yr Iaith
Gymraeg 1993 a chafodd gymeradwyaeth lawn Bwrdd yr Iaith
Gymraeg ar 7 Tachwedd 1997

CYFLWYNIAD

Egwyddor Cydraddoldeb

Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg ar sail cydraddoldeb. Mae'r cynllun hwn yn gosod sut y bydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn gweithredu'r egwyddor honno wrth gyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Y Drefniadaeth

Corff Cyhoeddus An-adrannol yw'r Comisiwn Ffiniau i Gymru, wedi ei noddi a'i gyllido gan y Swyddfa Gartref. Fe'i cyfansoddir o dan atodlen 1 i Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd) yn unol â'r canlynol:-

Cadeirydd	Llefarydd Tŷ'r Cyffredin
Dirprwy Gadeirydd	Barnwr/-es yn yr Uchel Lys wedi ei b/phenodi gan yr Arglwydd Ganghellor
Comisiynydd	Wedi ei b/phenodi gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Comisiynydd	Wedi ei b/phenodi gan yr Ysgrifennydd Cartref
Asesydd	Cofrestrydd Cyffredinol Cymru a Lloegr
Asesydd	Cyfarwyddwr/-wraig C/Gyffredinol yr Arolwg Ordians
Cyd-ysgrifennydd	Swyddog o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi ei b/phenodi gan yr Ysgrifennydd Cartref
Cyd-ysgrifennydd	Swyddog o'r Swyddfa Gartref wedi ei b/phenodi gan yr Ysgrifennydd Cartref
Comisiynwyr Cynorthwyol	Cyfreithwyr annibynnol wedi eu penodi gan yr Ysgrifennydd Cartref i gynnal ymchwiliadau cyhoeddus

Bydd y Comisiwn yn cynnal ei gyfarfodydd naill ai yn Llundain neu yng Nghaerdydd ac fe'i cefnogir gan Adran Ysgrifenyddol o dri aelod staff, wedi eu

darparu ar hyn o bryd gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (SYC) ac wedi eu seilio yn Llundain.

Swyddogaeth y Comisiwn yw trefnu arolwg cyson o gynrychiolaeth pobl Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin ac yn Senedd Ewrop. Yn benodol, mae Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal arolwg cyffredinol o holl etholaethau Cymru ar gyfer Senedd San Steffan bob wyth i ddeuddeng mlynedd. Diben arolygon o'r fath yw gweithredu'r Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi yn atodlen 2 i Ddeddf 1986. Yn y bôn, mae'r rheolau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob etholaeth yng Nghymru fod â'r un nifer o etholwyr yn fras, tra'n rhoi sylw i rai ffiniau llywodraeth leol, ystyriaethau daearyddol arbennig a chysylltiadau lleol.

Wedi pob arolwg cyffredinol o'r fath, mae Deddf Etholiadau Seneddol Ewropeaidd 1978 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal arolwg atodol o etholaethau Senedd Ewrop yng Nghymru. Diben arolygon o'r fath yw gwneud yn siŵr fod pob etholaeth ar gyfer Senedd Ewrop yn cynnwys etholaethau cyfan San Steffan ac â'r un nifer o etholwyr yn fras â phob etholaeth arall ar gyfer Senedd Ewrop yng Nghymru, gan gadw mewn cof ystyriaethau daearyddol arbennig.

Rhwng arolygon cyffredinol, mae gan y Comisiwn bŵer yn ôl ei ewyllys i gynnal arolygon o etholaethau Senedd San Steffan. Fel arfer, caiff arolygon interim o'r fath eu cynnal mewn dwy neu ragor o etholaethau er mwyn peri bod ffiniau etholaethau San Steffan yn cydreddeg â ffiniau llywodraeth leol fel y cawsant eu newid. Gall arolwg interim arwain wedyn at arolwg atodol o etholaethau Senedd Ewrop er mwyn peri i ffiniau'r etholaethau Ewropeaidd gydreddeg â ffiniau etholaethau San Steffan fel y cawsant eu newid.

Wrth gynnal arolygon, mae'n ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi ei argymhellion dros dro mewn papurau newydd sy'n cylchreddeg yn yr etholaethau yr effeithir arnynt, gwahodd sylwadau am y cynigion hynny, a chymryd sylwadau o'r fath i ystyriaeth. Bydd y Comisiwn hefyd yn cyhoeddi hysbysiadau newyddion a mapiau i hwyluso deall ei gynigion.

Mae'n rhaid i'r Comisiwn gynnal ymchwiliad lleol os cyflwynir iddo sylwadau'n gwrthwynebu ei argymhellion dros dro ar gyfer:-

etholaethau San Steffan - gan awdurdod lleol sydd â buddiant neu gan gorff o 100 neu ragor o etholwyr

etholaethau Ewropeaidd - gan awdurdod lleol sydd â buddiant neu gan gorff o 500 neu ragor o etholwyr

Mae gan y Comisiwn ryddid hefyd i gynnal ymchwiliadau cyhoeddus os penderfyna fod eu hangen, hyd yn oed lle na fodlonwyd y meini prawf statudol. Os bydd y Comisiwn yn diwygio'i argymhellion yng ngoleuni ymchwiliad cyhoeddus, rhaid i'r argymhellion diwygiedig hynny gael eu cyhoeddi, gan wahodd sylwadau pellach. Nid yw'n statudol ofynnol i'r Comisiwn gynnal ymchwiliad cyhoeddus pellach ond mae ganddo ryddid i wneud felly.

Wrth gwblhau pob arolwg, rhaid i'r Comisiwn gyflwyno'i argymhellion terfynol i'r Ysgrifennydd Cartref mewn adroddiad y mae'n ofynnol iddo ei roi gerbron y Senedd gyda Gorchymyn drafft mewn Cyngor yn gweithredu argymhellion y Comisiwn, wedi eu haddasu neu beidio. Os cynigir addasiadau, bydd raid i'r Ysgrifennydd Cartref roi datganiad o'i resymau dros yr addasiadau hynny gerbron hefyd. Pan gaiff ei gymeradwyo gan ddau Dŵ'r Senedd, cyflwynir y Gorchymyn i gael ei wneud gan Ei Mawrhydi mewn Cyngor. Wedi gwneud y Gorchymyn mewn Cyngor, daw ffiniau newydd yr etholaethau i rym adeg yr etholiad cyffredinol nesaf neu'r etholiad nesaf i Senedd Ewrop.

Wrth fodloni'r swyddogaethau hyn, ac er mwyn darparu gwasanaeth yn y ddwy iaith, dyma a wnawn.

CYNLLUNIO A GWIREDDU'R GWASANAETH

Polisiau a Mentrau Newydd

Wrth lunio a gweithredu unrhyw bolisiau a mentrau newydd, mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi ymrwymo:-

- i hybu a hwyluso egwyddor cydraddoldeb wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg:-

lle bynnag yr ystyrir newid polisiau presennol, neu gyflwyno polisiau a mentrau newydd, gwneir asesiad o'r canlyniadau ieithyddol. Os bydd angen, bydd y Comisiwn yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gael cyngor

- i sicrhau bod unrhyw bolisiau a mentrau newydd yn gyson â'r Cynllun Cymraeg hwn ac nad ydynt yn ei danseilio:-

wrth ystyried newidiadau i bolisiau presennol neu fabwysiadu polisiau a mentrau newydd, cynhwysir trefniadau gwirio i sicrhau cysondeb â'r cynllun hwn a chefnogaeth iddo

- i ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn â chynigion fydd yn effeithio ar y cynllun hwn, neu ar gynlluniau cyrff eraill:-

bydd y drefn ar gyfer ystyried newidiadau i bolisiau presennol neu fabwysiadu polisiau a mentrau newydd yn cynnwys cydymgyngori â'r Bwrdd

- i sicrhau cydsyniad y Bwrdd i unrhyw newid i'r cynllun hwn:-

bydd y Comisiwn yn ceisio ac yn sicrhau cymeradwyaeth ysgrifenedig y Bwrdd cyn gweithredu unrhyw newid i'r cynllun hwn

- i sicrhau bod y Comisiynwyr a staff yn Adran yr Ysgrifennydd sy'n cyfrannu at lunio polisi yn ymwybodol o'r cynllun hwn ac am gyfrifoldebau'r Comisiwn o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993:-

rhoir i bob Comisiynydd, Comisiynydd Cynorthwyol, Asesydd a phob aelod o staff Adran yr Ysgrifennydd gopi personol o'r cynllun hwn ac o newidiadau iddo a gymeradwywyd gan y Bwrdd

- i sicrhau bod y mesurau a gynhwysir yn y cynllun yn cael eu cymhwyso at unrhyw bolisiau a mentrau newydd wrth eu gweithredu:-

bydd y Comisiwn yn gwneud trefniadau - gyda chymorth y Bwrdd lle bo angen - i wneud yn siŵr fod polisiau a mentrau newydd yn gyson â gofynion y cynllun hwn

- i hybu egwyddor cydraddoldeb wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg:-

bydd papur ysgrifennu, slipiau cyfarch, hysbysiadau newyddion, llythyrau newyddion, hysbysiadau i'r Wasg a datganiadau ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus yn cadarnhau bod y Comisiwn yn croesawu cysylltiad a deliadau yn yr iaith Gymraeg.

Gwireddu'r Gwasanaeth trwy Gyfrwng y Gymraeg

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i drin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn gyfartal wrth roi ei holl wasanaethau. Felly, bydd pob dogfen a gyhoeddir gan y Comisiwn yn cael ei chyhoeddi yn y ddwy iaith.

Camau penodol eraill a gymerir gan y Comisiwn yw:-

- y bydd papur ysgrifennu, slipiau cyfarch, cardiau post a phob eitem ysgrifennu arall yn cael eu hargraffu'n ddwyieithog ac yn cynnwys datganiad safonol bod y Comisiwn yn croesawu cysylltiad yn yr iaith Gymraeg

- y bydd y Comisiwn yn gohebu'n gychwynnol yn Gymraeg ag unigolion neu grwpiau y gwyddys ei bod yn well ganddynt gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg
- y bydd llythyrau newyddion, hysbysiadau newyddion, hysbysiadau i'r Wasg, llyfrynau gwybodaeth, datganiadau ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus, adroddiadau i'r Ysgrifennydd Cartref ac unrhyw ddeunydd arall a gyhoedda'r Comisiwn yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog ac fel un ddogfen, ac yn cynnwys datganiad safonol bod y Comisiwn yn croesawu cysylltiad yn yr iaith Gymraeg
- y bydd unrhyw benawdau, allweddi, eglurhadau, rhestri, rdiadau esboniadol neu rybuddion hawlfraint a ychwanega'r Comisiwn at fapiau a sicrhawyd oddi wrth gyflenwyr mapiau yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog
- lle bynnag y bo modd, y bydd y Comisiwn yn ceisio penodi Comisiynwyr Cynorthwyol Cymraeg i gynnal ei ymchwiliadau cyhoeddus, yn enwedig lle y rhagwelir y gallai fod nifer o gyfranwyr Cymraeg eu hiaith
- y bydd y Comisiwn yn trefnu i bobl broffesiynol allanol fod yn bresennol yn ei ymchwiliadau er mwyn rhoi gwasanaeth cyfieithu-ar-y-pryd
- y bydd Adran Ysgrifennydd y Comisiwn yn ymateb i ddarparwyr gwasanaeth naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn unol â chais y darparydd

Mae staff Adran Ysgrifennydd y Comisiwn, sef tri swyddog sydd hefyd yn gweithio i Gomisiwn Ffiniau Lloegr, wedi ei seilio yn Llundain. Er gwaethaf ymdrechion yn y gorffennol, ni fu modd penodi swyddog Cymraeg. Fodd bynnag, bydd y Comisiwn yn parhau i geisio cyflogi swyddog Cymraeg i ymuno ag Adran ei Ysgrifennydd pryd bynnag y penodir staff newydd. I hybu'r nod hwn, bydd y Comisiwn yn cynnwys y gallu i siarad Cymraeg ymhlith y gofynion sydd i'w dymuno ar gyfer swyddi yn Adran ei Ysgrifennydd.

Yn absenoldeb swyddog Cymraeg o fewn Adran yr Ysgrifennydd, bydd y Comisiwn yn defnyddio gwasanaethau un neu ragor o gyfieithwyr proffesiynol allanol i ddarparu cyfieithiadau ac ymateb i alwadau teleffon yn Gymraeg yn ystod oriau swyddfa arferol.

Yn benodol, mae'r Comisiwn wedi ymrwymo:-

- i ymateb yn Gymraeg neu Saesneg i bob gohebiaeth yn unol â'r iaith a ddewisir gan y gohebydd

- i ymateb i bob gohebiaeth o fewn deg diwrnod gwaith i dderbyn llythyr, p'un a fo'r ateb i'w anfon yn Gymraeg neu yn Saesneg
- i ateb pob galwad deffon naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, fel y dewisir gan y galwr

Nes i'r Comisiwn allu penodi swyddog Cymraeg i Adran yr Ysgrifennydd, bydd galwyr teleffon sy'n dewis siarad Cymraeg yn cael eu hysbysu, yn Saesneg, nad oes neb ar gael i siarad Cymraeg o fewn yr Adran. Gofynnir i alwyr roi eu henw a'u rhif teleffon, a dywedir wrthynt y bydd cyfieithydd proffesiynol yn galw'n ôl yn syth, neu ar adeg sy'n fwy cyfleus iddynt, i dderbyn eu cwestiynau. Rhoir gwybod i alwyr hefyd y bydd y cyfieithydd yn cyfleu eu cwestiynau i Adran yr Ysgrifennydd, yn derbyn yr atebion ac yn eu cyfleu'n ôl i'r galwyr. Wedyn, caiff unrhyw gwestiynau pellach eu hateb yn yr un modd. Bydd unrhyw alwr teleffon nad yw'n fodlon ar y trefniadau hyn yn cael dewis ysgrifennu i'r Comisiwn yn Gymraeg a derbyn ateb ysgrifenedig llawn yn yr un iaith, neu barhau â'r sgwrs yn Saesneg.

Safonau Ansawdd

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i roi gwasanaeth o ansawdd cyfuch yn Gymraeg a Saesneg a bydd yn cynnwys y ffaith hon ar ffurf datganiad yn ei lyfrynau gwybodaeth. Bydd y Comisiwn yn cymhwyso egwyddorion Siarter y Dinesydd wrth ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg ymhob rhan o Gymru ac yn cadw golwg ar y safonau a osodir.

Yn benodol, bydd y Comisiwn:-

- yn gosod yr un terfynau amser ar gyfer ymateb i lythyrau a galwadau teleffon yn Gymraeg ac yn Saesneg
- yn trin pob ymholydd Cymraeg a Saesneg â'r un cwrteisi a phwyll
- yn defnyddio'r un arddull, fformat, maint teip, ansawdd ac amlygrwydd yn fersiynau Cymraeg a Saesneg ei ddogfenni dwyieithog

CYSYLLTU AG UNIGOLION A CHYRFF SYDD AM OHEBU NEU SIARAD YN GYMRAEG

Gohebiaeth

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i egwyddor cydraddoldeb fel a nodir yn Neddf yr Iaith Gymraeg ac mae'n croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, yn union fel yn Saesneg.

Caiff datganiad byr i'r perwyl hwn ei gynnwys ar bapur pennawd y Comisiwn, ynghyd â slipliau cyfarch, cardiau post, llythyrau newyddion, hysbysadau

newyddion, hysbysiadau i'r Wasg, llyfrynau gwybodaeth, adroddiadau i'r Ysgrifennydd Cartref a chyhoeddiadau eraill. Pan dderbynnir gohebiaeth yn Gymraeg, bydd y Comisiwn yn sicrhau:-

- y rhoir ateb o fewn yr un terfyn amser ag yr atebid llythyr yn Saesneg
- y caiff ateb Cymraeg ei lofnodi a'i anfon, lle bynnag y mae angen ateb
- yn sgîl cyfathrebu dros y teleffon yn Gymraeg, mai yn Gymraeg y bydd unrhyw ohebiaeth â'r galwr a gychwynnir gan y Comisiwn, oni fydd y galwr wedi mynegi fel arall. Caiff enw pob galwr ei ychwanegu at restr y rhai y gwyddys eu bod am gyfathrebu yn Gymraeg
- mai ar ffurf ddwyieithog y bydd gohebiaeth a gychwynnir gan y Comisiwn os na wyddys iaith y derbynnydd
- mai yn Gymraeg y bydd gohebiaeth a gychwynnir gan y Comisiwn â phobl y gwyddys ei bod yn well ganddynt ohebu trwy gyfrwng y Gymraeg
- y bydd unrhyw gylchlythyrau a llythyrau safonol i'r cyhoedd yng Nghymru yn cael eu darparu'n ddwyieithog

Caiff pob gohebiaeth a dderbynnir gan y Comisiwn yn Gymraeg ei hanfon trwy ddull electronig at gyfieithydd proffesiynol allanol yng Nghymru o fewn un diwrnod gwaith. Bydd gofyn i'r cyfieithydd ddychwelyd y cyfieithiad Saesneg o fewn dau ddiwrnod gwaith. Wedyn, os bydd angen ateb, paratwir ateb yn Saesneg o fewn dau ddiwrnod gwaith a'i anfon trwy ddull electronig at y cyfieithydd. Bydd gofyn i'r cyfieithydd ddychwelyd y cyfieithiad i'r Comisiwn ar ffurf gyfrifiadurol briodol, trwy'r post dosbarth cyntaf, o fewn dau ddiwrnod gwaith. Defnyddir data'r ddisg lipa i anfon at y gohebydd ateb Cymraeg wedi ei lofnodi cyn pen deg diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr gwreiddiol.

Sefydlir rhestr bostio o enwau a chyfeiriadau'r bobl a'r cyrff hynny y gwyddys ei bod yn well ganddynt gynnal eu gohebiaeth â'r Comisiwn trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn Gymraeg y gohebir â'r bobl a'r cyrff hynny fydd ar y rhestr. Fodd bynnag, bydd y Comisiwn yn anfon gohebiaeth ar ffurf ddwyieithog at bobl a chyrff o'r fath wrth gychwyn llythyr, ffurflen neu gylchlythyr cyffredinol neu safonol ar gyfer nifer fawr o dderbynwyr yr un pryd

Cyfathrebu dros y Teleffon

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i egwyddor cydraddoldeb fel a nodir yn Neddf yr Iaith Gymraeg ac mae'n croesawu galwadau teleffon yn Gymraeg, yn union fel yn Saesneg. Mae Adran Ysgrifennydd y Comisiwn yn grŵp bach iawn o staff y SYC

wedi eu seilio yn adeilad y SYC yn Llundain. Y SYC sy'n darparu gwasanaeth y bwrdd teleffon. Fodd bynnag, mae Adran Ysgrifennydd y Comisiwn wedi neilltuo llinell uniongyrchol ar gyfer derbyn galwadau teleffon gan rai sy'n dymuno siarad Cymraeg.

Hyfforddwyd staff Adran yr Ysgrifennydd i ddelio â galwadau ar y llinell bwrpasol. Cedwir casgliad o gyfarwyddiadau wrth y teleffon a gwneir cofnod o bob galwad a dderbynnir drosti. Rhwir gwybod am fodolaeth y llinell bwrpasol yn llythyrau newyddion y Comisiwn ac mewn hysbysiadau newyddion, hysbysiadau i'r Wasg, llyfrynnau gwybodaeth ac ar ei bapur ysgrifennu. Bydd y Comisiwn hefyd yn cadarnhau ei fod yn croesawu galwadau teleffon yn yr iaith Gymraeg.

Nes bydd modd penodi swyddog Cymraeg, bydd galwyr i'r llinell bwrpasol yn cael eu hysbysu nad oes neb ar gael i siarad Cymraeg o fewn Adran yr Ysgrifennydd. Gofynnir iddynt roi eu henw a'u rhif teleffon, a dywedir wrthynt y bydd cyfieithydd proffesiynol yn galw'n ôl yn syth, neu ar adeg sy'n fwy cyfleus iddynt, i dderbyn eu cwestiynau. Rhwir gwybod i alwyr hefyd y bydd y cyfieithydd yn cyfleu eu cwestiynau i Adran yr Ysgrifennydd, yn derbyn yr atebion ac yn eu cyfleu'n ôl i'r galwyr yn Gymraeg. Wedyn, caiff unrhyw gwestiynau pellach eu hateb yn yr un modd. Bydd unrhyw alwr nad yw'n fodlon ar y trefniadau hyn yn cael dewis siarad yn Saesneg neu ysgrifennu i'r Comisiwn yn Gymraeg a derbyn ateb ysgrifenedig yn yr un iaith. Rhwir cyhoeddusrwydd i'r drefn hon yng nghyhoeddiadau'r Comisiwn.

Ymchwiliadau Cyhoeddus

Bydd croeso i bobl sy'n bresennol yn ymchwiliadau cyhoeddus y Comisiwn a gynhelir o dan Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf Etholiadau Seneddol Ewropeaidd 1978 (fel y'i diwygiwyd) siarad yn Gymraeg neu Saesneg. Cynhelir pob ymchwiliad yng Nghymru a bydd llyfrynnau gwybodaeth y Comisiwn, ynghyd â hysbysiadau i'r Wasg, hysbysiadau newyddion a datganiadau ynglŷn ag ymchwiliadau cyhoeddus, yn ei gwneud yn glir y gall unrhyw berson neu gorff sydd â buddiant fod yn bresennol yn unrhyw rai o ymchwiliadau cyhoeddus y Comisiwn a chyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Bydd y Comisiwn, lle bynnag y bo modd, yn ceisio penodi Comisiynwyr Cynorthwyol Cymraeg i gynnal ei ymchwiliadau cyhoeddus, yn enwedig lle y rhagwelir y gallai fod nifer o gyfranwyr Cymraeg eu hiaith. Nid yw Comisiynwyr Cynorthwyol yn cael eu penodi gan y Comisiwn ond maent yn hytrach yn cyfreithwyr annibynnol wedi eu penodi gan yr Ysgrifennydd Cartref. Bydd y Comisiwn yn cyfarwyddo Comisiynwyr Cynorthwyol i gyhoeddi, ar derfyn pob dydd o bob ymchwiliad cyhoeddus, y gellir cyflwyno sylwadau yn Gymraeg neu yn Saesneg, a bod gwasanaeth cyfieithu-ar-y-pryd ar gael.

Bydd y Comisiwn yn trefnu i ddau berson proffesiynol allanol roi gwasanaeth cyfieithu-ar-y-pryd yn ei ymchwiliadau cyhoeddus. Gofynnir hefyd iddynt gynorthwyo'r aelod o Adran yr Ysgrifennydd a fydd yn bresennol yn yr ymchwiliad

wrth ddelio ag unrhyw ymholiadau gan bobl yn dymuno siarad yn Gymraeg. Bydd y Comisiwn yn rhoi i'r ddau gyfieithydd gyfarwyddyd cefndir cynhwysfawr yng nghyswllt yr ymchwiliad o leiaf chwe wythnos cyn iddo ddechrau. Bydd y Comisiwn yn sicrhau bod gan y cyfieithwyr yr offer cyfieithu angenrheidiol, neu y cânt eu cyflenwi ag offer felly, er mwyn gallu rhoi gwasanaeth cyfieithu-ar-y-pryd effeithiol ac effeithlon mewn ymchwiliadau cyhoeddus.

Cyfarfodydd Eraill â'r Cyhoedd

Y tu allan i ymchwiliadau cyhoeddus, nid yw'r Comisiwn fel arfer yn cael unrhyw gysylltiad wyneb-yn-wyneb arall â'r cyhoedd yng Nghymru nac yn Lloegr. Fodd bynnag, yn absenoldeb aelod Cymraeg o Adran yr Ysgrifennydd, os bydd unrhyw berson yn ymweld â swyddfeydd yr Adran yn Llundain ac yn dymuno cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg, fe eglurir nad oes neb ar gael a all siarad Cymraeg ac y bydd cyfieithydd proffesiynol allanol yn rhoi gwasanaeth cyfieithu cydlynol dros y teleffon yn ystod y sgwrs.

Deliadau Eraill â'r Cyhoedd

Bydd unrhyw wybodaeth a gyhoedda'r Comisiwn ar ei Safle Gwe ar y Rhyngrwyd yn cael ei darparu ar ffurf ddwyieithog. Bydd y safle hefyd yn cynnwys datganiad bod y Comisiwn yn croesawu cysylltiad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Rhwir copi o'r cynllun Cymraeg hwn ar y Rhyngrwyd yn y ddwy iaith. Cyfeiriad safle gwe'r Comisiwn yw:-

<http://www.ons.gov.uk>

WYNEB CYHOEDDUS Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Hunaniaeth Gorfforaethol

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i fabwysiadu a chyflwyno hunaniaeth gorfforaethol gwbl ddwyieithog yng Nghymru. Yn benodol:-

- dangosir logo'r Comisiwn yn ddwyieithog
- caiff gwybodaeth safonol fel enw'r Comisiwn a'r neges "croesewir y Gymraeg" ei dangos yn ddwyieithog ar holl bapur ysgrifennu'r Comisiwn ac ar bob dogfen a gyhoeddir
- ymhob dogfen ddwyieithog, dangosir y ddwy iaith gydag amlygrwydd cyfartal, h.y. wyneb teip, maint teip, arddull, ansawdd ac eglurder

Arwyddion Gwybodaeth

Nid yw'r Comisiwn yn prydlesu, yn dal nac yn meddu ar unrhyw eiddo nac adeilad yng Nghymru. Fel arfer, cynhelir ymchwiliadau cyhoeddus y Comisiwn mewn adeiladau, fel Siambrau Cyngor, wedi eu darparu gan awdurdodau lleol. Bydd unrhyw arwyddion dros dro a godir ar leoliadau ymchwiliadau, i gyfeirio pobl i'r ymchwiliad, yn rhai dwyieithog fydd yn rhoi'r un amlygrwydd i'r ddwy iaith.

Deunydd a Gyhoeddir ac a Argreffir

Bydd holl bapur ysgrifennu'r Comisiwn, ynghyd â dogfenni cyhoeddus a gynhyrchir ganddo, yn cael eu hargraffu'n ddwyieithog a'u cyhoeddi fel un ddogfen, h.y. hysbysiadau i'r Wasg, hysbysiadau newyddion, llythyrau newyddion, llyfrynau gwybodaeth, labeli mapiau, datganiadau ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus ac adroddiadau i'r Ysgrifennydd Cartref. Bydd y Comisiwn fel arfer yn cyhoeddi dogfenni o'r fath ag un iaith wyneb i waered i'r llall.

Os, am unrhyw reswm, na fydd modd cynhyrchu unrhyw gyhoeddiad fel un ddogfen, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi ac yn dosbarthu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un pryd â'i gilydd. Er enghraifft, wrth anfon hysbysiadau newyddion neu lythyrau newyddion, rhoir y fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yn yr un amlen. Bydd y Comisiwn yn ymgynghori â'r ddogfen "Canllawiau dylunio dwyieithog" wrth gyhoeddi deunydd newydd a hwyrach, os bydd angen, yn cyddrafod â Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Ffurflenni

Ar hyn o bryd, nid yw'r Comisiwn yn defnyddio unrhyw ffurflenni wrth gynnal ei fusnes. Ond os penderfyna ddechrau defnyddio ffurflenni yn y dyfodol, caiff y rheiny eu cynhyrchu'n ddwyieithog ac, o bosibl, fel un ddogfen.

Hysbysiadau i'r Wasg

Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi ei holl hysbysiadau i'r Wasg ar ffurf ddwyieithog.

Hysbysebion Penodi

Mewn unrhyw ymgyrch benodi, p'un a gaiff honno ei chynnal o fewn y SYC neu'r tu allan iddi, bydd y Comisiwn yn ceisio penodi swyddogion Cymraeg i ymuno ag Adran ei Ysgrifennydd.

GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

Staff Cymraeg

Mae Adran Ysgrifennydd y Comisiwn wedi ei seilio yn Llundain a chaiff cyfarfodydd y Comisiwn, nad ydynt ar agor i'r cyhoedd, eu cynnal naill ai yn Llundain neu yng Nghaerdydd. Nid oes gan y Comisiwn unrhyw fannau gweithio sydd â chysylltiad wyneb-yn-wyneb â'r cyhoedd yng Nghymru ond, serch hynny, bydd yn trefnu i ymchwiliadau cyhoeddus gael eu cynnal yng Nghymru. Mewn ymchwiliadau cyhoeddus o'r fath, bydd y Comisiwn:-

- yn ceisio, lle bynnag y bo modd, benodi Comisiynwyr Cynorthwyl Cymraeg, yn enwedig lle y rhagwelir y gallai fod nifer o gyfranwyr Cymraeg eu hiaith
- yn trefnu i ddau berson proffesiynol allanol roi gwasanaeth cyfieithu-ar-y-pryd i bobl sy'n dod i'r ymchwiliadau, gan gynnwys y cofnodwyr sy'n darparu gwasanaeth trawsgrïpt gair-am-air
- yn sicrhau bod yr offer cyfieithu angenrheidiol yn cael eu darparu
- yn cynhyrchu holl ddogfennaeth yr ymchwiliad yn ddwyieithog
- yn darparu unrhyw arwyddion y mae eu hangen ar ffurf ddwyieithog

Mae Adran Ysgrifennydd y Comisiwn hefyd yn gweithio i Gomisiwn Ffiniau Lloegr. Bydd y staff yn cysylltu â'r cyhoedd trwy ohebiaeth a galwadau teleffon. Ni fu modd eto i'r Comisiwn benodi swyddog Cymraeg i ymuno ag Adran ei Ysgrifennydd. Wrth ystyried penodi swyddogion newydd yn lle staff presennol neu benodi staff ychwanegol, bydd yn Comisiwn yn ceisio sicrhau rhywun sy'n siarad Cymraeg. Fodd bynnag, bydd y Comisiwn yn parhau I ddefnyddio gwasanaethau cyfieithwyr proffesiynol allanol i gynhyrchu pob dogfen a gyhoeddir ganddo ac at ddibenion eraill, lle y bo hynny'n briodol.

Bydd Cyd-ysgrifennydd y SYC i'r Comisiwn yn monitro'r cynllun i wneud yn siŵr bod y safonau'n cael eu cynnal ac i weld a ellir gwneud gwelliannau. Bydd yn rhoi gwybod i'r Comisiwn am unrhyw gwynion am y cynllun neu'r ffordd y caiff ei weithredu, ac am unrhyw welliannau y gellid eu gwneud i'r cynllun. Ymgynghorir â'r Bwrdd pan fydd angen.

Hyfforddiant Galwedigaethol trwy Gyfrwng y Gymraeg

Os penodir swyddog Cymraeg i Adran yr Ysgrifennydd, gwneir asesiad o ba hyfforddiant, mewn meysydd fel medrau teleffon, gallu drafftio, prosesu geiriau, cyfieithu-ar-y-pryd a chyfieithiadau ysgrifenedig, y bydd ei angen ar yr unigolyn hwnnw. Mae'r Comisiwn yn ymwybodol y gall geisio cymorth y Bwrdd ac eraill, fel y Corff Arweiniad ar Ieithoedd, wrth drefnu asesiad o'r fath.

Trefniadau Gweinyddol i hwyluso'r Cynllun

Rhoir triniaeth gyfartal i'r iaith Gymraeg wrth ddarparu holl wasanaethau'r Comisiwn.

Cafodd holl fesurau'r cynllun hwn, ac fe gaiff unrhyw addasu arnynt yn y dyfodol, eu cymeradwyo gan y Dirprwy Gadeirydd a'r ddau Gomisiynydd a bydd iddynt awdurdod llawn y Comisiwn. Rhoir i bob Comisiynydd Cynorthwyol gopi o'r cynllun hwn a bydd y cyfarwyddyd safonol yn cynnwys canllawiau ar weithredu'r cynllun mewn ymchwiliadau cyhoeddus.

Bydd Cyd-ysgrifennydd y SYC i'r Comisiwn yn gyfrifol am sicrhau gweithredu'r cynllun. Bydd y llawlyfr hyfforddiant ar gyfer staff Adran yr Ysgrifennydd yn cynnwys copi o'r cynllun.

Os na all y Comisiwn benodi swyddog Cymraeg, bydd yn parhau i ddefnyddio gwasanaethau cyfieithwyr proffesiynol allanol. Os bydd i'r Comisiwn benderfynu addasu neu ddisodli systemau cyfrifiadur presennol, neu sicrhau systemau newydd, bydd y gallu i drin ymrwymadau'r cynllun hwn yn cael ei gynnwys yn y fanyleb.

Contractwyr Allanol

Ni fydd y Comisiwn yn defnyddio ond cyfieithwyr allanol sydd â chymwysterau proffesiynol, gan roi iddynt gopi o'r cynllun hwn a mynnu ganddynt ufuddhau i ymrwymadau a safonau'r cynllun.

Rhoir copi o'r cynllun hwn i gyflenwyr gwasanaethau i'r Comisiwn a gofynnir iddynt gynorthwyo'r Comisiwn i gyflawni ei ymrwymadau. Bydd unrhyw ymarferiad caffael a gynhelir gan y Comisiwn yn cynnwys amod y dylid sicrhau bod mesurau'r cynllun yn cael eu parchu.

Pan gynhelir ymchwiliad lleol mewn eiddo sy'n perthyn i awdurdod lleol, bydd y Comisiwn yn gofyn i'r awdurdod lleol ddarparu arwyddion i gyfeirio'r cyhoedd i'r ymchwiliad. Bydd pob arwydd o'r fath ar ffurf ddwyieithog ac yn cwrdd fel arall ag ymrwymadau'r cynllun hwn.

Monitro'r Cynllun

Bydd Cyd-ysgrifennydd y SYC yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y cynllun ac yn atebol i'r Dirprwy Gadeirydd a'r ddau Gomisiynydd. Bydd y Cyd-ysgrifennydd yn sicrhau:-

- y bydd unrhyw newidiadau i bolisiau presennol neu unrhyw ystyriaeth i bolisiau neu fenter newydd yn gyson â'r cynllun hwn
- y bydd pob gwasanaeth a rydd y Comisiwn i'r cyhoedd yng Nghymru yn trin y ddwy iaith yn gyfartal
- y bydd unrhyw ddeunydd argraffedig ar ffurf ddwyieithog gydag amlygrwydd cyfartal i'r ddwy iaith
- y bydd yr arwyddion a ddarperir mewn ymchwiliadau lleol gan awdurdodau lleol ar ran y Comisiwn ar ffurf ddwyieithog
- y bodlonir amserau ymateb a safonau eraill
- y gwneir ymdrech i benodi swyddog Cymraeg

Caiff unrhyw gwynion eu trin yn brydlon, eu harchwilio gan y Cyd-ysgrifennydd a'u cyfleu i'r Dirprwy Gadeirydd a'r ddau Gomisiynydd, gan anfon ateb i'r cwynydd.

Caiff awgrymiadau gan aelodau'r cyhoedd ar gyfer gwella'n cynllun eu croesawu, eu cyfleu gan y Cyd-ysgrifennydd i'r Dirprwy Gadeirydd a'r ddau Gomisiynydd i gael ystyriaeth, ac fe anfonir ateb i'r cwynydd. Bydd unrhyw ddiwygiad i'r cynllun hwn a gymeradwyir wedyn gan y Comisiwn yn cael ei drafod â'r Bwrdd cyn ei weithredu.

Ar ddiwedd pob arolwg cyffredinol ac atodol, bydd y Comisiwn, trwy gyfrwng un o'i gyhoeddiadau dwyieithog, yn ceisio sylwadau'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg am y gwasanaethau Cymraeg a roes y Comisiwn yn ystod yr arolwg. Bydd y Comisiwn yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Bwrdd ynglŷn â'r ffordd y gweithredwyd y cynllun ganddo ac ynglŷn ag unrhyw gwynion neu awgrymiadau a ddaeth i law.

Rhoi Gwybod am Berfformiad yn Ôl y Safonau

Bob blwyddyn, bydd y Comisiwn yn rhoi i'r Bwrdd wybodaeth yn cymharu'r perfformiad â'r safonau a osodir yn y cynllun hwn. Bydd hyn yn cynnwys:-

- nifer y bobl a'r cyrff yr anfonwyd copi o'r cynllun hwn atynt

- sut y gwnaed y cyhoedd yn ymwybodol bod y Comisiwn yn croesawu deliadau yn y ddwy iaith
- nifer y bobl a'r cyrff ar restr y rhai y mae'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg
- canran y darnau gohebiaeth eraill a gychwynnwyd ar ffurf ddwyieithog
- canran yr ohebiaeth a gafodd ei hateb yn briodol yn yr iaith a ddefnyddiodd y gohebydd
- canran yr atebion a anfonwyd o fewn deg diwrnod gwaith i dderbyn llythyr
- canran y dogfenni cyhoeddus a gyhoeddwyd yn ddwyieithog
- canran yr ymchwiliadau cyhoeddus lle darparwyd gwasanaeth cyfieithu-ar-y-pryd

Bydd Adran yr Ysgrifennydd yn rhoi gwybod i'r Comisiwn os na fodlonwyd unrhyw un o'r targedi, gan nodi rhesymau.

Cyhoeddusrwydd

Bydd y Comisiwn yn cymryd y camau a ganlyn i roi cyhoeddusrwydd i'r cynllun hwn a'i ddwyn i sylw'r rhai sydd â diddordeb yn ei waith:-

- bydd y Comisiwn yn dosbarthu llythyr newyddion yn gwahodd y rhai sydd â diddordeb i wneud cais am gopi o'r cynllun hwn
- bydd y Comisiwn yn anfon copi o'r cynllun hwn, ynghyd ag unrhyw addasiadau iddo a gymeradwyir gan y Bwrdd yn y dyfodol, yn uniongyrchol i'r cyrff hynny y gwyddys eu bod â diddordeb
- caiff cyfeiriadau at argaeledd y cynllun eu cynnwys yn hysbysiadau newyddion y Comisiwn, ac mewn llythyrau newyddion, hysbysiadau i'r Wasg, datganiadau ar gyfer ymchwiliadau lleol a llyfrynnau gwybodaeth
- rhoir copi o'r cynllun i bob aelod o staff Adran yr Ysgrifennydd
- rhoir copi o'r cynllun ar y Rhynggrwyd

Rhoir cyhoeddusrwydd i argaeledd gwasanaeth dwyieithog yn hysbysiadau newyddion, llythyrau newyddion, a llyfrynau gwybodaeth y Comisiwn, ac yn ei hysbysiadau i'r Wasg a'i ddatganiadau ar gyfer ymchwiliadau lleol.

TARGEDI AR GYFER GWEITHREDU'R CYNLLUN YN LLAWN

Targed	Amserlen
Sicrhau bod y Comisiwn yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog	Gweithredwyd yn barod
Sicrhau bod polisïau newydd yn cymryd i ystyriaeth egwyddor cydraddoldeb yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg	Gweithredwyd yn barod
Trefnu darparu Gwasanaeth Cyfieithu Cymraeg	Gweithredwyd yn barod
Caiff pob papur ysgrifennu ei argraffu'n ddwyieithog	Gweithredwyd yn barod
Caiff pob hysbysiad i'r Wasg ei argraffu'n ddwyieithog	Gweithredwyd yn barod
Dosberthir pob hysbysiad newyddion a llythyr newyddion yn ddwyieithog	Gweithredwyd yn barod
Caiff pob llyfryn gwybodaeth ei argraffu'n ddwyieithog	Gweithredwyd yn barod
Bydd pob adroddiad a gyflwynir i'r Ysgrifennydd Cartref yn cael ei baratoi ar ffurf ddwyieithog	Gweithredwyd yn barod
Caiff pob deunydd argraffedig arall ei gynhyrchu'n ddwyieithog	Gweithredwyd yn barod
Bydd pob papur ysgrifennu'n gwahodd cysylltiad yn Gymraeg	Gweithredwyd yn barod

Targed	Amserlen
Bydd pob cyhoeddiad yn gwahodd cysylltiad yn Gymraeg	Gweithredwyd yn barod

Ateb pob gohebiaeth yn yr iaith a ddefnyddiwyd gan y gohebydd	Gweithredwyd yn barod
Ateb pob gohebiaeth o fewn yr un amserlen, p'un ai yn Gymraeg neu yn Saesneg y cafodd ei derbyn	Gweithredwyd yn barod
Gohebu yn Gymraeg â'r rhai y mae'n well ganddynt y Gymraeg fel cyfrwng	Gweithredwyd yn barod
Cadw rhestr o'r rhai y mae'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg	Gweithredwyd yn barod
Sicrhau bod cyfleusterau'n bodoli i ganiatáu i'r rhai sydd am gyfathrebu yn Gymraeg ar y teleffon wneud felly	Gweithredwyd yn barod
Rhoi canllawiau i staff Adran yr Ysgrifennydd i'w galluogi i drin galwadau teleffon gan bobl Gymraeg	Gweithredwyd yn barod
Darparu gwasanaeth cyfieithu-ar-y-pryd mewn ymchwiliadau cyhoeddus	Gweithredwyd yn barod
Sicrhau bod arwyddion gwybodaeth y Comisiwn mewn ymchwiliadau cyhoeddus yn gwbl ddwyieithog	Gweithredwyd yn barod
Cynhwysir cyfeiriad at y cynllun hwn yn llyfrynau gwybodaeth y Comisiwn	Wrth ailargraffu'r tro nesaf
Sicrhau bod y cynllun yn cael ei gynnwys yn llawlyfr hyfforddiant staff Adran yr Ysgrifennydd	Ionawr 1999
Sicrhau bod pob Comisiynydd, Comisiynydd Cynorthwyol, Asesydd a phob aelod o staff Adran yr Ysgrifennydd yn cael copi personol o'r cynllun ac unrhyw ddiwygiadau pellach iddo	Yn mynd ymlaen
Sicrhau bod y gallu i siarad Cymraeg yn cael ei restru ymhlith y gofynion sydd i'w dymuno wrth benodi i swyddi yn Adran yr Ysgrifennydd yn y dyfodol	Yn mynd ymlaen
Sicrhau bod pob cyflenwr gwasanaeth yn ymwybodol o gynnwys y cynllun hwn	Yn mynd ymlaen
Sicrhau monitro'r cynllun yn fewnol	Yn mynd ymlaen
Cyflenwi adroddiadau blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg	Ebrill 1999 a phob blwyddyn wedyn

Ymholiadau

Dylai unrhyw ymholiadau, sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â'r cynllun hwn, naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, gael eu cyfeirio at:-

Terry Bergin
Comisiwn Ffiniau i Gymru
RG/11
1 Drummond Gate
London
SW1V 2QQ

Ymholiadau teleffon yn Gymraeg:	0171 533 5172
Ymholiadau teleffon yn Saesneg:	0171 533 5170
Negesau cyflunydd:	0171 533 5176
Rhif teleffon rhwydwaith y llywodraeth:	3042 5170

Rhyngrwyd

Gellir gweld copi o'r cynllun hwn a gwybodaeth bellach am waith y Comisiwn ar safle gwe'r Comisiwn ar y Rhyngrwyd, sef:-

<http://www.ons.gov.uk>